Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fawrth 2018. (Gohiriwyd cyfarfod 1af o Fawrth oherwydd y tywydd)

1 Presennol – John Jones (Cadeirydd) Anwen Humphreys Maldwyn Owen – Garndolbenmaen, Richard Williams Gwilym Evans – Prenteg, Richard Parry – Bryncir, Gwenno Emlyn Huws – Penmorfa, Huw Pritchard,– Pentrefelin, Megan Lloyd Williams – Golan.

Cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Anwen Humphreys ar ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei chwaer.

2 Ymddiheuriadau – Gareth Jones, Clifford Williams, Amanda N Owen, Dafydd Thomas, Eifion Williams, Delyth Evans, Edward Evans, Cynghorydd Stephen Churchman.

3 Ddim yn bresennol – neb.

4 Datgan Buddiant – Eitem 5 MLW Aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol y Gorlan, Tremadog. Eitem 10 GEH Aelod o Bwyllgor Cae Chwarae Penmorfa.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion – 1/2/18.
Eitem 4 Datgan Buddiant – Eitem 12 Delyth Evans yn aelod o Bwyllgor Cyfeillion Ysgol y Gorlan a Gwenno Huws yn aelod o staff. Ychwanegu a dod a'r Cofnodion yn nôl i'r cyfarfod nesaf i'w cymeradwyo.
Eitem 10 Gwefan cyfeiriadau e-bost – Torri Adran 7 Penderfyniadau Blaenorol o'r Rheolau Sefydlog – "Ni fydd penderfyniad yn cael ei ddadwneud o fewn chwe mis ac eithrio naill ai trwy gynnig arbennig …….".
Rhoddion ariannol – derbyn ceisiadau hwyr. Penderfynwyd bod angen trafodaeth ynglŷn â'r modd o ddelio gyda rhain. Richard Parry yn cynnig a Maldwyn Owen yn eilio.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Gwenno Huws y cyfarfod.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Camerau Diogelwch - Clerc wedi cysylltu gyda Dewi Evans, Swyddog Troseddu Cefn Gwlad, Heddlu Gogledd Cymru, ond penderfynodd peidio mynychu'r cyfarfod o'r Cyngor nes bydd mwy o fanylion ar gael.

Penmorfa – Cynllun draenio dŵr wedi ei gwblhau. Angen monitro'r sefyllfa ar ôl tywydd garw.

Cae Chwarae Penmorfa - Ni chynhaliwyd y cyfarfod rhwng y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Cynghorydd Gwenno Huws oherwydd gwaeledd.

[redacted] Eitem caeëdig.

Mewnfudwyr - Derbyniwyd ateb gan yr Adran Rhyddid Gwybodaeth. Nid yw'n bosib iddynt ryddhau enwau a chyfeiriadau unigolion sy'n symud i'r ardal o dan yr egwyddor gyntaf o'r Ddeddf Diogelu Data.

Materion Priffyrdd- derbyniwyd llythyr gan yr Adran Priffyrdd yn nodi fod y materion dan sylw wedi eu trafod gyda'r Cynghorydd Gwilym Evans. Adroddwyd nad yw'r gwaith wedi ei gwblhau yn gywir.

Pont y Traeth - Clerc i gysylltu gydag Osian Richards i ofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa.

7 Mynwentydd – Dim i'w adrodd.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Rhif 1 Mynydd Glas i Garreg Lwyd Garndolbenmaen – dŵr yn cronni.
Rhif 3 – 4 Pant i Bronheulog, Brondirion i Llechwedd Garndolbenmaen – coeden ar draws y llwybr.

Clerc i gysylltu gyda Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd i drefnu i un o'i swyddogion cyd-gerdded y llwybrau gyda'r Cadeirydd.

9 Adroddiad Pentrefi –

Garndolbenmaen
Tŷ Tafarn Cross Foxes - Mae Cymdeithas Gymunedol Garndolbenmaen wedi trefnu cyfarfod yn y Neuadd, nos Iau, 15fed o Fawrth i drafod y bwriad i brynu'r Cross Foxes. Bydd y Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfod.

10 Tendrau – Torri gwair Mynwentydd, Llwybrau Cyhoeddus, Cae Chwarae Penmorfa a Man Waith.

Agorwyd yr amlenni yn y cyfarfod gyda'r Cynghorwyr yn bresennol. Penderfynwyd fel a ganlyn –

Llwybrau 1 – 10 – Idris Jones.
Llwybrau 11 – 18 - Dylan Edwards.
Mynwentydd Bethel, Prenteg, Cwm Pennant – Idris Jones.
Mynwentydd Hen Fynwent, Ty'n Llan, Penmorfa, Mynwent Uwch y Llyn – Dylan Edwards.
Cae Chwarae Penmorfa – Aled Jones.
Gwilym Evans yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

Penderfynwyd gofyn i'r Contractwyr yrru bil yn fisol.

11 Cadarnhau trefniadau'r Cyfarfod Blynyddol – Penderfynwyd cynnal y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Penmorfa. Clerc i gysylltu gydag Ysgrifennydd y Neuadd.

12 Rheolau Sefydlog a Chod Ymddygiad – Adolygwyd y Rheolau Sefydlog. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn copi cyfredol o'r Cod Ymddygiad gan Gyngor Gwynedd.

13 Teyrnged Cenedl (Nation's Tribute)

Penderfynwyd peidio cymryd rhan yn y deyrnged swyddogol genedlaethol, ond trefnu coffâd ar raddfa fach.

14 Unllais Cymru

Penderfynwyd peidio cwblhau'r arolwg ar yr adolygiad Cynghorau Thref a Chymuned.

15 Camerau Diogelwch - Penderfynwyd cael trafodaeth bellach ar ôl derbyn mwy o wybodaeth.

16 Gwefan – cyfeiriadau e-bost

Penderfynwyd lansio'r safle we yn ystod mis Ebrill. Bydd newidiadau eraill megis defnyddio Google Drive/cyfeiriadau e-byst Cynghorwyr yn cael eu cyflwyno fesul tipyn, ac yn cyd-redeg gyda'r system bresennol.

17 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd – Rhybudd cau'r ffordd di-ddosbarth gyferbyn â Phlas Aberdeunant.
Rhybudd cau'r ffordd di-ddosbarth gyferbyn â Bryn Moel, Garndolbenmaen.

b Gweithdy Cynllunio 20/2/18 – dosbarthwyd 11/2/18.

c Dileu ffioedd llywodraeth leol am gladdu plant.

ch Gwahoddiad gan Ymddiriedolwyr Bywyd Gwyllt Glaslyn.

d Rali Goffa Merfyn Hughes Rali Llyn.

dd Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd. Clerc i gysylltu gyda'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i awgrymu'r enw Glaslyn. Hefyd cysylltu gyda Chynghorau Cymuned Beddgelert a Llanfrothen i holi os ydynt wedi trafod y mater.

e Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn – er gwybodaeth.

f Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant Plas Tan y Bwlch, Maentwrog 8/3/18. Dyddiad wedi newid i 19/4/18 4 yp.

ff Cyngor Tref Criccieth – diwrnod o rannu atgofion am y rhyfel byd cyntaf 7/3/18.

g Rhoddion Ariannol – llythyrau/e-byst o ddiolch. Gŵyl Cerdd Dant, Neuadd Pentrefelin, Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog, Eisteddfod Garndolbenmaen, Canolfan Golan, Cylch Meithrin y Gorlan Fach, Cyfeillion Ysgol y Gorlan. Ychwanegwyd Neuadd Garndolbenmaen.

18 <u>Cynllunio</u>

Rhestrau 5/2, 9/2, 19/2.18. Ychwanegwyd rhestr 26/2/18.

<u>Ceisiadau Cynllunio</u>

<u>Cais C18/0040/36/LL</u>

Cais i wneud gwelliannau i'r safle gan gynnwys bloc toiledau newydd, ymestyn trac presennol a darparu llawr caled o dan yr unedau. Maes Carafan Mynydd Du, Criccieth. LL52 0PS. Sylwadau erbyn 1/3/18. Dim gwrthwynebiad.

<u>C18/0090/36/LL</u>

Dymchwel estyniadau presennol a throsi cyn adeilad amaethyddol i uned gwyliau hunan gynhaliol. Mynydd Du, Criccieth. LL52 0PS Sylwadau erbyn 2/3/18. Dim gwrthwynebiad.

Ychwanegwyd

<u>Cais NP2/16/LB104E</u>

Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau i ychwanegu pibellau dŵr glaw allanol ar y drychiadau dwyreiniol a gorllewinol – Tŵr Bryncir, Golan. LL51 9AQ – dim gwrthwynebiad.

19 <u>Materion Ariannol</u>

Ceisiadau am arian: Dim.

Monitro'r gyllideb – Cysoni'r banc Hydref – Rhagfyr 2017. Dau Gynghorydd i wirio'r llyfrau yn y cyfarfod nesaf.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £ 225.64
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 56.40
Aelodaeth Unllais Cymru	= £200.00
Rhent Canolfan Golan	= £260.00
Costau teithio Cynghorwr	= £ 18.00

Ychwanegwyd

Gwasg y Bwthyn	= £ 22.56
Idris Jones	= £4854.00

Derbyniadau – dim.

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £20,274.93 Cyfredol - £2,209.23

Penderfynwyd trosglwyddo £3500 o'r Cyfrif Cadw i'r Cyfrif Cyfredol.

20 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –

- Ceisiadau Cynllunio.
- Tendrau.
- Coffau can mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf